| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Cabinet |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 22 Mai 2018 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Cynghorydd Hugh Evans, Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol / Graham Boase, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Economi a'r Parth Cyhoeddus |
| Awdur yr Adroddiad: | Mike Horrocks, Rheolwr y Tîm Datblygiad Economaidd a Busnes a Rheolwr Rhaglen |
| Teitl: | **Cynllun Adfywio Rhanbarthol Gogledd Cymru a Rhaglen Adfywio Targedig Llywodraeth Cymru** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn ymwneud â sicrhau buddsoddiad mewn adfywio Sir Ddinbych gan Raglen Buddsoddiad Adfywio Targedig Llywodraeth Cymru. Mae'n cyflwyno Cynllun Adfywio Rhanbarthol Gogledd Cymru 2018-2035 (CARh) sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy brosesau gweithredol yn ardal pob Awdurdod Lleol.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Sicrhau y caiff yr aelodau'r wybodaeth gefndir berthnasol a cheisio cymeradwyaeth i'r argymhellion isod a fydd yn galluogi'r Cyngor i gael adnoddau gan LlC ar gyfer adfywio ardaloedd targedig yn y Sir.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod yr aelodau'n cymeradwyo:

- cyflwyniad Cynllun Adfywio Rhanbarthol terfynol Gogledd Cymru (a'r blaenoriaethau bras a gynhwysir ynddo) i LlC er mwyn cael arian TRI.
- y prosiectau amlinellol arfaethedig i'w cyflwyno gan y cyngor i'r rhaglen TRI
- rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Economi a'r Parth Cyhoeddus mewn ymgynghoriad ag Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid (Adran 151) i:
  - wneud unrhyw geisiadau am arian prosiectau sy'n angenrheidiol er mwyn cael arian gan y rhaglen TRI yn ystod y cyfnod y bydd y rhaglen yn weithredol.
  - derbyn a gwario arian ar brosiectau sy'n cael cefnogaeth y rhaglen TRI
  - trafod a gwneud cytundebau gyda chynghorau eraill Gogledd Cymru lle mae hyn yn angenrheidiol er mwyn gwneud cais am, neu dderbyn arian y rhaglen TRI.

3.2 Bod yr aelodau yn nodi y bydd adolygiad blynyddol o'r CARh yn unol â'r trefniadau llywodraethu a monitro (gweler Atodiad 1) a fydd yn cynnig cyfleoedd i wneud newidiadau i strategaeth a chyfeiriad a allent ganolbwyntio adnoddau ar drefi / ardaloedd eraill.

3.3 Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cefndir

4.1.1 Mae LlC wedi lansio'r rhaglen TRI er mwyn darparu cyllid ar gyfer prosiectau adfywio targedig ar draws Cymru o Ebrill 2018. Mae'r rhaglen yn disodli rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid 2014-17. Mae cyllid yn amodol ar gyflwyno CARh wedi'i flaenoriaethu ac y cytunwyd arno gan y 6 chyngor yng Ngogledd Cymru.

4.1.2 Mae LlC wedi gwahodd pob un o'r pedair partneriaeth datblygiad economaidd rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau tymor hirach i lywio'r rhaglen TRI yn eu rhanbarth. Mae LlC wedi cynnig y dylai pob rhanbarth flaenoriaethu nifer fechan o 'Ardaloedd Adfywio' yn eu cynllun, gyda'r Rhyl i ddechrau, ond hefyd Dinbych wedi eu hamlygu fel blaenoriaethau yn ein sir ni.

4.1.3 Bydd y rhaglen TRI gychwynnol ar waith am dair blynedd o 1 Ebrill 2018 ond mae swyddogion LlC yn hyderus y bydd arian ar gael yn y blynyddoedd wedyn ac wedi cynghori y dylai'r CARh nodi blaenoriaethau a rhaglenni gwaith hirdymor.

4.2 Ymateb Gogledd Cymru

4.2.1 Aelodau Grŵp Swyddogion Adfywio Gogledd Cymru (a hwylusir gan CSDd) a Grŵp Rheoli Rhaglen (GRhRh) Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) sydd wedi arwain ar yr ymateb i hyn yng Ngogledd Cymru.

4.2.2 Cytunwyd y dylid llunio Cynllun Adfywio Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru sy'n nodi'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer adfywio hyd 2036, gan ddarparu crynodeb lefel uchel o'r blaenoriaethau a fydd yn llywio datblygiad rhaglenni gwaith y dyfodol. Bydd hyn yn alinio'r broses adfywio gyda'r broses ar gyfer twf economaidd, gyda'r ddwy broses yn dilyn yr un amserlen.

4.2.3 Mae CARh drafft (Atodiad 1) wedi'i ddatblygu o fewn yr amserlen heriol a bennwyd ar gyfer y broses, gan olygu fod yn rhaid arddel ymdriniaeth gydweithredol ar draws Gogledd Cymru. Mae LlC wedi gofyn i swyddogion ddatblygu a blaenoriaethu buddsoddiadau ac i ganolbwyntio adnoddau cyfyngedig ar Ardaloedd Adfywio Blaenoriaeth a phrosiectau thematig a fydd yn gwneud defnydd o gyllid tair blynedd gyntaf y rhaglen TRI.

4.2.4 Awgrymir y blaenoriaethau bras canlynol o fewn CARh Gogledd Cymru:

- Lleihau anghydraddoldeb
- Cynyddu cyflogaeth
- Moderneiddio canol trefi
- Datblygu'r economi gwledig
- Gwella'r cynnig tai
- Cryfhau'r economi ymwelwyr
- Gwella iechyd pobl leol

4.2.5 Yn seiliedig ar gyngor LlC, mae deuddeng tref/ardal wedi'u cynnig fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymyriadau adfywio trefol. Cafodd y trefi hyn eu dewis gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) sy'n pennu lefelau cyffredinol amddifadedd yn seiliedig ar bresenoldeb Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is sydd ymysg y deg y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Y deuddeng tref/ardal i

gael eu blaenoriaethu ar y sail hon yw'r Rhyl, Wrecsam, Bae Colwyn, Caernarfon, Pentrefi Wrecsam, Treffynnon, Shotton, Llandudno, Dinbych, Caergybi, Abergele a Phensarn. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn ôl trefn yn seiliedig ar y boblogaeth sy'n byw yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is mwyaf difreintiedig.

4.2.6 Cydnabyddir bod y fethodoleg hon yn adnabod crynodiadau o dlodi cysylltiedig ag aneddiadau trefol mwy, ac mae'r angen i fynd i'r afael â thlodi ac anghenion adfywio mewn trefi llai ac ardaloedd gwledig hefyd wedi'i gydnabod.

4.3 Y Rhaglen Adfywio Targedig (TRI) ar gyfer Gogledd Cymru

4.3.1 Yn yr un modd â'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, mae'r rhaglen TRI yn cael ei chyflwyno ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn tai ac adfywio, gyda phwyslais clir ar greu swyddi, adnewyddiad trefol a thai. Mae LlC wedi dweud y bydd yn ystyried ceisiadau am gyllid cyfalaf gan awdurdodau lleol dim ond unwaith y bydd cynllun rhanbarthol cytunedig yn ei le.

4.3.2 Mae LlC wedi crybwyll dyraniad tybiannol dros dair blynedd ar gyfer Gogledd Cymru (£22m) sydd tua hanner y cyllid oedd ar gael o'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus, ond mae'n bosibl iawn y bydd lefel y cyllid yn wahanol i hyn yn dibynnu ar berfformiad rhanbarthau eraill yng Nghymru. All TRI ddim ond ariannu buddsoddiadau cyfalaf a bydd yn darparu hyd at 70% o gostau prosiect (50% ar gyfer datblygiad prosiectau).

4.3.3 Oherwydd lefel cyfyngedig yr adnoddau, mae swyddogion LlC wedi dweud mai dim ond 3 neu 4 o'r aneddiadau yng Ngogledd Cymru y byddant yn ystyried eu targedu yn ystod y cyfnod 2018-21. Yn seiliedig ar MALlC y rhain yw'r Rhyl, Wrecsam, Bangor a Bae Colwyn

4.3.4 Ar gais y swyddogion awdurdod lleol perthnasol, mae LlC wedi cytuno mewn egwyddor y caiff rhywfaint o gyllid Gogledd Cymru fod ar gael ar gyfer rhaglenni thematig dros fwy nag un sir, a allai hefyd gynnwys aneddiadau eraill a nodir yn y strategaeth ranbarthol. Mae'r rhaglenni thematig sydd dan ystyriaeth yn cynnwys: Ardaloedd Adfywio Tai; Adeiladau Gwag ac Adeiladau Pwysig mewn trefi llai ar draws chwe sir Gogledd Cymru.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Yn ogystal â chefnogi blaenoriaethau perthnasol i adfywio'r Rhyl bydd y CARh a'r rhaglen TRI yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau corfforaethol newydd 2017-2022 drwy:

- Ddatblygu tai canol tref newydd wedi'u targedu at bobl iau
- Dod a mannau diddefnydd yn ôl i ddefnydd masnachol a phreswyl.
- Cefnogi a chreu amgylchedd canol tref deniadol sy'n cynnal ffyniant economaidd.
- Gwella'r cysylltiad rhwng trigolion â'u canol tref, siopau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth.
- Datblygu canol trefi i fod yn llefydd y bydd pobl ifanc eisiau byw a gweithio ynddynt
- Galluogi pobl leol i gynllunio a siapio dyfodol eu canol trefi eu hunain.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r rhaglen TRI yn gofyn am arian cyfatebol o 30% ar gyfer prosiectau. Mae pob cyngor yn gyfrifol am ddod o hyd i nawdd cyfatebol ar gyfer ei brosiectau ei hun ac i'w alluogi i gael adnoddau o'r prosiectau thematig rhanbarthol. Nid yw'r arian

cyfatebol hwn wedi'i ddynodi eto gan ei bod yn bosibl na fyddai pwrpas gwneud hynny heb fod CARh cymeradwy yn ei le.

6.2 Gallai'r arian cyfatebol angenrheidiol ddod o amrywiaeth o ffynonellau cyhoeddus/preifat a bydd yn cael ei ystyried drwy weithdrefnau arferol y Cyngor, gan gynnwys CET, SIG a'r Cabinet.

6.3 Mae cynigion ar gyfer prosiectau wedi eu datblygu gydag ymgysylltiad swyddogion o sawl maes gwasanaeth. Yn benodol mae'r cynigion yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddarpariaeth Cynlluniau Gwasanaeth ar gyfer Cyfleusterau Asedau a Thai a Chynllunio a Diogelu'r Cyhoedd. Efallai y bydd effaith ar lwyth gwaith y gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd o safbwynt gwaith cyfreithiol a chaffael ar gynlluniau ailddatblygu eiddo.

6.4 Mae adfywiad hirdymor cymunedau difreintiedig yn Sir Ddinbych yn anelu at wella lles cymunedau a bydd yn lleihau'r galw ar sawl gwasanaeth cyhoeddus.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

7.1 Datblygwyd y cynnig gyda mewnbwn swyddogion o sawl disgyblaeth a sgoriodd 3 seren allan o 4. Ar y cyfan, ystyriwyd fod sicrhau buddsoddiad adfywio ar gyfer ardal sy'n dioddef o amddifadedd lluosog yn beth cadarnhaol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r buddiannau mwyaf, mae'n bwysig bod cysylltiadau cryf rhwng prosiectau sy'n creu newidiadau materol a phrosiectau sy'n cefnogi pobl leol. Bydd hefyd yn bwysig ystyried sut i amseru prosiectau er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar fusnesau lleol a defnyddwyr canol trefi.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Chraffu ac eraill?

Adroddiad briffio blaenorol i'r Cabinet, trafodaethau gydag amrywiol swyddogion y Cyngor a gwaith datblygiadol ar y CARh gyda LlC / swyddogion ar draws y rhanbarth.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r cyfle i sicrhau cyllid allanol a fydd yn cefnogi ardaloedd blaenoriaeth i'w groesawu. Bydd yn rhaid ystyried yn ofalus sut y gellir sicrhau elfennau nawdd cyfatebol y Cyngor ac a oes goblygiadau refeniw'n dod i'r amlwg mewn perthynas ag unrhyw brosiectau. Bydd y prosiectau yn destun y craffu mewnol a'r prosesau cymeradwyo arferol, gan gynnwys cyflwyniad cynlluniau cyfalaf i'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- Dim digon o amser staff / arbenigedd / arian ar gael i ddatblygu a darparu'r prosiectau arfaethedig. Bydd adnabod y bwlch mewn adnoddau yn gynnar ac ail-glustnodi amser staff/adnoddau ariannol er mwyn cynorthwyo datblygiad /darpariaeth o gymorth.
- Un o'r Cynghorau yng Ngogledd Cymru ddim yn cymeradwyo'r cynigion CARh/TRI i'w cyflwyno i LlC. Os bydd hyn yn digwydd mae'n debygol y bydd y dyraniad grant TRI ar gyfer 2018/19 yn cael ei golli ar gyfer y rhanbarth gan na fydd digon o amser i wneud cais ac i gyflawni'r amcanion o fewn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r risg hwn wedi'i liniaru hyd yma drwy gydweithio agos ond mae peth risg o hyd y gallai anawsterau gwleidyddol godi mewn rhai cynghorau.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000. Y pŵer i weithredu er hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal.